

Sgiliau Hanfodol Cymru

Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhif (EAoNS)

Lefel 3 – Tasg dan Reolaeth

Pecyn i Ymgeiswyr

Archwilio Opsiynau o ran Lle i Fyw

Sampl 1

Enw'r Ymgeisydd:
Rhif yr Ymgeisydd:
Dyddiad Cofrestru ar gyfer EAoNS:
Rhif Unigryw'r Dysgwr (ULN) (<i>os yw'n berthnasol</i>):
Enw neu Rif y Ganolfan:

Cyfarwyddiadau

- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi eich enw, eich rhif ymgeisydd, eich ULN (os yn berthnasol) ac enw neu rif y ganolfan yn y blychau ar dop y dudalen hon.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud **pob** rhan o'r dasg.

Mae gennych chi **8 awr** i orffen y dasg, ond mae'n bosib rhannu'r amser hwnnw dros nifer o sesiynau. Mae'n **rhaidd** i chi gofnodi isod beth oedd dyddiad dechrau a dyddiad gorffen pob sesiwn:

Dyddiad dechrau r dasg dan reolaeth:							
Dyddiad gorffen y dasg dan reolaeth (<i>dim mwy nag wyth wythnos yn ddiweddarach</i>):							
Sesiwn 1	Sesiwn 2	Sesiwn 3	Sesiwn 4	Sesiwn 5	Sesiwn 6	Sesiwn 7	Sesiwn 8
	<i>Dyddiad</i>	<i>Dyddiad</i>	<i>Dyddiad</i>	<i>Dyddiad</i>	<i>Dyddiad</i>	<i>Dyddiad</i>	<i>Dyddiad</i>
<i>Hyd</i>	<i>Hyd</i>	<i>Hyd</i>	<i>Hyd</i>	<i>Hyd</i>	<i>Hyd</i>	<i>Hyd</i>	<i>Hyd</i>
Cyfanswm yr amser a dreuliwyd yn gwneud y dasg:							

Os oes angen mwy nag wyth sesiwn arnoch chi, rhowch ddyddiad/hyd bob sesiwn arall ar dudalen ar wahân.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys senario, cyfarwyddiadau a ffynonellau gwybodaeth.

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen drwy'r senario, y cyfarwyddiadau a'r wybodaeth sydd yn y ffynonellau yn ofalus cyn dechrau.
- Bydd rhywun yn eich goruchwyllo gydol yr amser rydych chi'n gweithio ar y dasg, ond byddwch yn gallu defnyddio'r rhan fwyaf o'r offer sydd ar gael i chi fel arfer mewn sefyllfa go iawn (gan gynnwys defnyddio'r rhyngwyd, o bosib) yn ystod y cyfnod hwnnw.
- Mae'n rhaid i bob darn o waith rydych chi'n ei roi i mewn fod yn waith rydych **chi eich hun a neb arall** wedi'i wneud. Does neb yn cael eich helpu gyda'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy'r dasg dan reolaeth hon.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi eich gwaith i gyd i mewn ar ddiwedd **pob** sesiwn. Chewch chi ddim mynd ag unrhyw rai o ddeunyddiau'r dasg i ffwrdd gyda chi, a chewch chi ddim gweld y deunyddiau rhwng sesiynau.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn **llofnodi'r datganiad** sydd yng nghefn y pecyn hwn ar ddiwedd eich sesiwn olaf yn gweithio ar y dasg.

Cyfarwyddiadau'r Dasg: Archwilio Opsiynau o ran Lle i Fyw

Beth mae angen i chi ddod o hyd iddo

Senario

Mae ffrindiau i chi o'r Eidal yn symud i Gymru am dair blynedd. Maen nhw wedi gofyn i chi am gyngor ynglŷn â dod o hyd i lle i fyw. Maen nhw'n ystyried dau ddewis, naill ai prynu tŷ neu rentu eiddo.

Nod y dasg ydi:

- cymharu prisiau tai yn yr ardal leol â phrisiau yng Nghymru
- archwilio'r ddau ddewis ac argymhell un ohonyn nhw.

Defnyddiwch y ffynonellau a ddarparwyd.

Beth mae angen i chi ei wneud

Rhan 1

Mae'n rhaid i chi gynllunio sut rydych am baratoi'r wybodaeth. Mae'n rhaid i'ch cynllun ddangos y canlynol:

- sut rydych am fynd i'r afael â'r broblem
- pa wybodaeth rydych yn mynd i'w defnyddio a'r rheswm dros eich dewis
- pa gyfrifiadau y byddech chi'n gallu eu defnyddio, a pha rai rydych yn dewis eu gwneud
- pam rydych wedi dewis y dulliau hyn
- sut rydych am gyflwyno'r canlyniadau.

(Cyfanswm ar gyfer Rhan 1: 6 marc)

Rhan 2

Mae angen i chi gymharu dosbarthiad prisiau ar gyfer tai gyda 3 ystafell wely yn yr ardal leol a thai gyda 3 ystafell wely yng Nghymru.

Mae eich ffrindiau yn chwilio am dŷ gyda 3 ystafell wely sydd ag arwynebedd llawr o 120 metr sgwâr o leiaf.

Mae ganddyn nhw gyllideb o 125,000 Ewro.

Cymharwch sefyllfa ariannol eich ffrindiau ar ôl tair blynedd gyda'r ddau opsiwn.

Opsiwn 1 - buddsoddi eu harian yn y DU am 3 blynedd a rhentu lle i fyw.

- cyfrifwch beth fydd gwerth y buddsoddiad ar ôl 3 blynedd
- dewiswch eiddo addas a chyfrifo beth fydd cyfanswm y rhent dros gyfnod o 3 blynedd.

Opsiwn 2 - defnyddio eu harian fel blaendal a chodi benthyciad i brynu tŷ.

Byddai eich ffrindiau yn gwerthu'r tŷ ar ôl 3 blynedd. Byddant yn ei werthu am yr un pris ag yr oeddynt wedi talu amdano wrth ei brynu, ac yn talu'r benthyciad yn ôl.

- dewiswch eiddo addas a chyfrifo faint o fenthyciad y byddai angen i'ch ffrindiau ei gael
- cyfrifwch beth fydd cyfanswm cost y benthyciad gyda llog cyfansawdd o 6.2% am 3 blynedd.

Mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

- gwneud o leiaf un cyfrifiad heb gyfrifiannell
- dangos yr holl gyfrifiadau rydych chi'n eu gwneud. Os ydych chi'n defnyddio cyfrifiannell, gwnewch nodyn o beth rydych yn ei roi i mewn yn y gyfrifiannell. Os ydych chi'n defnyddio taenlen, gwnewch nodyn o'r ffigurau a'r fformiwla'u rydych chi'n eu defnyddio.
- rhowch ateb sy'n cyfateb i'r lefel cywirdeb a ddisgwyllir ar y lefel hon.

Cofiwch wirio eich cyfrifiadau.

(Cyfanswm ar gyfer Rhan 2: 19 marc)

Rhan 3

Cyflwyno eich canlyniadau mewn dwy ffordd wahanol.

Defnyddiwch un ffordd i gyflwyno dosbarthiad prisiau tai yn eich ardal leol.

Defnyddiwch ffordd wahanol i gyflwyno sefyllfa ariannol eich ffrindiau gyda'r opsiwn buddsoddi a rhentu a'r opsiwn prynu.

Llunio adroddiad byr am eich canlyniadau:

- gwnewch argymhelliad ac esboniwch eich rhesymau
- rhowch sylwadau ar ba mor effeithiol yw eich canlyniadau o ran bodloni diben y dasg
- cyfiawnhewch eich dulliau cyflwyno
- rhowch sylwadau ar sut y gallai unrhyw ffynonellau gwall posib fod wedi effeithio ar eich canlyniadau.

(Cyfanswm ar gyfer Rhan 3: 11 marc)

Adnoddau y dylech chi eu defnyddio:

Ffynhonnell 1

- Graff– Prisiau tai gyda 3 ystafell wely yng Nghymru

Ffynhonnell 2

- Tabl – Tai ar werth yn yr ardal leol

Ffynhonnell 3

- Tabl - Cyfraddau cyfnewid

Ffynhonnell 4

- Tabl - Cywerthyddion imperial a metrig

Ffynhonnell 5

- Cynllun buddsoddi

Ffynhonnell 6


- Tabl – Tai gyda 3 ystafell wely i'w rhentu yn yr ardal leol

Ffynhonnell 7

- Fformiwla ar gyfer llog cyfansawdd

Ffynhonnell 1 Graff– Prisiau tai gyda 3 ystafell wely yng Nghymru

Prisiau tai gyda 3 ystafell wely yng Nghymru



Ffynhonnell 2 Tabl – Tai ar werth yn yr ardal leol (Tudalen 1 o 2)

Cyfeirnod yr eiddo	Math o eiddo	Pris Gwerthu (£)	Nifer yr Ystafelloedd Gwely	Pellter o ganol y dref (milltiroedd)	Arwynebedd y llawr (troedfeddi sgwâr)
502	Tŷ pâr	164 000	3	1	1440
512	Tŷ teras	147 500	3	1	1280
515	Tŷ pâr	222 300	4	3	2260
538	Byngalo	154 000	3	3	1270
573	Tŷ teras	153 900	4	2	1870
574	Tŷ teras	161 000	3	1	1230
575	Fflat	129 000	2	1	1120
597	Tŷ pâr	177 350	2	1	1160
615	Tŷ teras	140 500	2	2	1030
629	Tŷ teras	189 000	3	4	1420
630	Byngalo	164 000	3	1	1450
631	Tŷ pâr	132 900	2	5	930
631	Tŷ teras	171 000	3	2	1370
654	Tŷ pâr	145 000	3	5	1230
658	Tŷ pâr	149 000	3	4	1330
661	Tŷ sengl	201 400	4	2	1500
662	Tŷ pâr	199 900	3	1	1410
665	Tŷ pâr	154 000	3	1	1240
666	Tŷ teras	151 000	2	2	1150
673	Tŷ pâr	206 900	3	1	1330
676	Tŷ sengl	250 000	5	1	2000
695	Tŷ pâr	164 000	3	4	1420
700	Tŷ pâr	189 000	3	3	1430
701	Tŷ pâr	132 650	2	3	970
708	Tŷ pâr	136 360	2	4	970
709	Tŷ sengl	143 250	4	3	1980
716	Tŷ sengl	189 000	3	2	1440
733	Byngalo	435 600	5	3	2250
744	Tŷ pâr	151 000	3	2	1390
755	Byngalo	151 000	3	1	1430
756	Tŷ pâr	140 000	2	3	1120
757	Tŷ pâr	135 050	2	5	1040
769	Tŷ pâr	206 900	3	2	1310
771	Tŷ pâr	173 500	3	4	1410
772	Tŷ teras	149 000	3	1	1430
780	Tŷ pâr	123 365	2	3	1100
788	Tŷ pâr	150 350	2	1	1040

Ffynhonnell 2 Tabl – Tai ar werth yn yr ardal leol (Tudalen 2 o 2)

Cyfeirnod yr eiddo	Math o eiddo	Pris Gwerthu (£)	Nifer yr Ystafelloedd Gwely	Pellter o ganol y dref (milltiroedd)	Arwynebedd y llawr (troedfeddi sgwâr)
794	Tŷ teras	122 900	2	3	1110
795	Tŷ pâr	144 560	4	1	1700
797	Byngalo	192 000	4	5	1930
805	Tŷ sengl	171 000	3	2	1340
812	Tŷ pâr	151 000	3	1	1290
814	Tŷ pâr	149 000	3	4	1430
819	Tŷ sengl	181 900	4	2	1600
824	Tŷ sengl	158 500	3	2	1410
832	Byngalo	145 000	3	4	1240
835	Byngalo	171 000	3	6	1260
844	Tŷ pâr	147 500	2	1	940
856	Tŷ pâr	158 500	3	3	1360
862	Tŷ sengl	164 000	3	2	1340
867	Tŷ pâr	147 500	3	3	1410
874	Tŷ sengl	154 000	3	4	1230
878	Tŷ pâr	175 000	3	3	1280
894	Tŷ pâr	255 600	5	1	1990
900	Tŷ sengl	154 000	3	1	1290
915	Tŷ pâr	252 990	5	4	2290
918	Tŷ pâr	124 550	2	4	1120
920	Tŷ pâr	154 000	3	2	1300
924	Tŷ teras	136 000	2	1	1130
924	Tŷ sengl	334 990	5	2	2410
935	Tŷ sengl	147 500	3	1	1370
938	Tŷ teras	140 990	2	1	1030
939	Tŷ teras	149 900	2	2	1100
958	Tŷ sengl	199 900	3	5	1300
972	Tŷ teras	135 360	2	1	1030

Ffynhonnell 3 Tabl - Cyfraddau cyfnewid

Arian cyfred	Cyfradd gyfnewid fesul £
Doler (UDA)	1.32
Ewro	1.11
Doler (Awstralia)	1.76
Krone (Denmarc)	8.84
Yen (Japan)	137.29
Ruble (Rwsia)	87.34
Lira (Twrci)	3.94

Ffynhonnell 4 Tabl - Cywerthyddion imperial a metrig

Mesuriad llinol

1 modfedd	2.54 cm
1 droedfedd	30.5 cm
1 llathen	0.914 m
1 milltir	1.61 km

1 cm	0.394 modfedd
1 m	39.4 modfedd
1 m	3.28 troedfedd
1 km	0.621 milltir

Mesuriad arwynebedd

1 modfedd sgwâr	6.45 cm ²
1 droedfedd sgwâr	0.0929 m ²
1 llathen sgwâr	0.836 m ²
1 milltir sgwâr	2.59 km ²

1 cm ²	0.155 modfedd sgwâr
1 m ²	10.8 troedfedd sgwâr
1 m ²	1.196 llathen sgwâr
1 km ²	0.386 milltir sgwâr

Ffynhonnell 5 – Cynllun buddsoddi

<p>Cynllun buddsoddi</p> <p>Buddsoddi rhwng £50 000 a £500 000</p> <p>Cyfradd llog sefydlog o 3.5% ar ffurf gyfansawdd dros gyfnod o 3 blynedd</p> <p>Mae'n rhaid i'ch arian aros yn y cyfrif am 3 blynedd lawn. Chewch chi ddim codi arian o'r cyfrif tan ddiwedd y cynllun.</p>
--

Ffynhonnell 6 Tabl – Tai gyda 3 ystafell wely i'w rhentu yn yr ardal leol

Cyfeirnod yr eiddo	Math o eiddo	Rhent bob mis (£)	Arwynebedd y llawr (troedfeddi sgwâr)
A428	Tŷ teras	800	1390
A147	Tŷ sengl	895	1320
A429	Tŷ pâr	795	1270
A357	Tŷ teras	795	1290
A450	Tŷ teras	785	1150
A447	Tŷ pâr	810	1380
A272	Byngalo	845	1290
B397	Tŷ sengl	875	1440
B432	Tŷ teras	815	1360
B236	Tŷ pâr	830	1320
F260	Tŷ teras	780	1400
F118	Tŷ pâr	800	1150
F239	Tŷ sengl	835	1250
F162	Tŷ teras	765	1430
F423	Tŷ pâr	785	1330
H207	Tŷ teras	760	1200
H364	Tŷ pâr	795	1240
H115	Tŷ pâr	785	1310
H388	Byngalo	845	1220
H468	Tŷ sengl	875	1440
P260	Byngalo	925	1280
P406	Tŷ pâr	885	1440

Ffynhonnell 7 - Fformiwla ar gyfer llog cyfansawdd

$$F = P\left(1 + \frac{r}{100}\right)^n$$

Ile mai

F yw'r gwerth terfynol mewn £
P yw'r gwerth gwreiddiol mewn £
r yw cyfradd y llog fel canran
n yw nifer y blynyddoedd

Datganiadau

Mae'n rhaid llenwi datganiad yr ymgeisydd a datganiad yr aseswr.

Enw'r Ymgeisydd:

Datganiad yr ymgeisydd:

Rwyf yn cadarnhau mai fy ngwaith fy hun yn gyfan gwbl yw hwn a fy mod wedi'i wneud yn ystod yr amseroedd sydd wedi'u nodi ar glawr blaen y llyfryn hwn.

Llofnod yr ymgeisydd

Dyddiad _____

At ddefnydd staff y ganolfan a [corff dyfarnu] yn unig

Datganiad yr aseswr:

Rwyf yn cadarnhau bod yr ymgeisydd hwn wedi cyrraedd y safon sy'n ofynnol ar gyfer y dasg dan reolaeth. Cynhaliwyd y dasg dan reolaeth yn unol â'r amodau a nodwyd a'i chwblhau o fewn y cyfnod gweithio a'r gofynion o ran amser gweithio.

Llofnod yr aseswr

Dyddiad _____

Datganiad y Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol (IQA):

(os samplwyd)

Rwyf wedi sicrhau ansawdd y gwaith hwn yn fewnol ac rwyf yn cadarnhau bod y safonau wedi cael eu bodloni.

Llofnod yr IQA

Dyddiad _____

Datganiad y Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol (EQA):

(os samplwyd)

Rwyf wedi sicrhau ansawdd y gwaith hwn yn allanol ac rwyf yn cadarnhau bod y safonau wedi cael eu bodloni.

Llofnod yr EQA

Dyddiad _____